


SUT MAE DADANSODDEG LLEOLIAD YN GWEITHIO?




Dyma eglurhad syml gan Cisco:

Gellir ffonau clyfar gyda WiFi bellach gael eu defnyddio fel dangosydd o bresenoldeb cwsmeriaid diolch i fecanwaith WiFi sy'n gyffredin ar draws pob dyfais o'r fath: **ceisiadau archwilio**. Mae'r fframiau rheoli 802.11 hyn yn cael eu trosglwyddo yn rheolaidd o ddyfeisiadau WiFi.

Mae'r fframiau'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei ddefnyddio i nodi presenoldeb, amser a dreuliwyd, ac ailadrodd ymwelaidau o fewn cyrhaeddiad o unrhyw bwynt mynediad WiFi. Gellir canfod y dyfeisiadau hyn gan bwyntiau mynediad WiFi beth bynnag yw statws y WiFi sy'n golygu, **hyd yn oed os nad yw defnyddiwr yn cysylltu ei ddyfais/dyfais i'r rhwydwaith di-wifr**, gellir canfod presenoldeb y ddyfais o hyd tra bod y ddyfais o fewn cyrhaeddiad o'r rhwydwaith a bod antenna WiFi y ddyfais ymlaen.

Mae Meraki yn defnyddio ceisiadau archwilio, fframiau data, a fframiau goleufa Bluetooth i leoli a storio lleoliad cleientiaid.



Beth am breifatrwydd?

Gan fod y data lleoliad yn cynnwys cyfeiriadau MAC crai, gweithredodd Meraki nifer o **fecanweithiau diogelwch i ddiennwi'r data mewn modd anwrthdroadwy**.

Gan ddefnyddio algorithm Meraki unigryw, mae'r cwmwl Meraki yn defnyddio proses 'hashes, salts and truncates' ar gyfer cyfeiriadau MAC fel nad ydynt yn ganfyddadwy. Yna mae cwmwl Meraki yn storio'r fersiwn yma o'r cyfeiriadau MAC. Disgrifir y broses ddiennw hon mewn mwy o fanylder yn y dogfen ar ein wefan.

A all pobl optio allan?

Yn olaf, mae gwefan Cisco Meraki yn cynnig nodwedd optio allan([opt-out feature](#)) byd-eang sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gyflwyno cyfeiriadau MAC eu dyfeisiau, ac ar ôl hynny ni fydd y cwmwl Meraki yn canfod eu cyfeiriadau MAC naill ai ar gyfer ei Ddadansoddiadau Lleoliad sydd wedi ei fewn adeiladu neu ar gyfer allforio amser real trwy'r API Sganio. Mae Cisco Meraki hefyd yn argymhell bod manwerthwyr ac eraill sy'n defnyddio'r hysbysiadau post API Sganio ar argaeledd yr optio byd-eang hwn mewn lleoliadau amlwg, yn ddelfrydol ar flaen y siop neu wrth mynedfeydd adeiladau ble mae datgeliad lleoliad yn digwydd.

Ffynhonell: Cisco Meraki – Location Analytics

Os hoffech chi ddysgu mwy am ddadansoddeg lleoliad Cisco Meraki edrychwch ar y weminar ddiweddar a gynhaliodd SMART Towns gyda Cisco ar ein sianel Youtube a chadwch lygad am y sesiwn nesaf.



Sut ydyn ni'n hysbysu'r cyhoedd?

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol eto, fe'i hystyrir yn arfer da hysbysu'r cyhoedd am unrhyw brosesu dadansoddeg WiFi sy'n digwydd yn yr ardal. Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn defnyddio'r sticeri hyn, sy'n cysylltu â'r platfform rhannu data, Patrwm, yn dangos yn glir yr ardal sydd wedi'i gorchuddio â dolenni i'r polisi preifatrwydd a thelerau ac amodau. Gall bod yn dryloyw ynghylch pa ddata sy'n cael ei gasglu, gan bwy ac at ba ddiben helpu i achub y blaen ar bryderon dinasyddion a gall helpu i fynd i'r afael â chamwybodaeth.

Beth arall allwn ni ei wneud i leddfu pryderon?

Mae'n bwysig fod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i aelodau'r cyhoedd sy'n pryderu am ddadansoddeg data, oherwydd gall gwybodaeth anghyflawn neu gyfeiliornus achosi problemau diangen. Ystyriwch lunio rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin ar gyfer datblygiadau digidol eich tref neu sir, fel yr enghraifft wych hon o [Sir y Fflint](#).

Gall ymgysylltu â'r gymuned helpu i leddfu pryderon, gall hyn fod drwy weithdai a chyflwyniadau yn egluro manteision y data, neu drwy ddsbarthu adroddiadau data i randdeiliaid. Gall ennill cefnogaeth grŵp adfywio neu fusnes lleol hefyd helpu i ddsbarthu'r wybodaeth ac ennill cefnogaeth i'r rhaglen.

Os hoffech unrhyw gyngor neu gefnogaeth bellach i sefydlu gweithdy cysylltwch â smarttowns@mentermon.com

Pa ddogfennau/polisiâu eraill ddylai fod yn eu lle?

DPIA: Mae asesiad effaith diogelu data yn ddogfen hanfodol ar gyfer y sefydliad sy'n rheoli/prosesu'r data. Mae enghraifft o'r ddogfen hon i'w gweld [yma](#)*

Telerau ac amodau: Mae enghreifftiau o bolisiâu preifatrwydd a thelerau ac amodau i'w gweld [yma](#)*

**sylwch fod yr enghreifftiau hyn er gwybodaeth ac os ydych yn ansicr dylech geisio cyngor proffesiynol.*

Beth arall sydd angen i ni ei ystyried?

Yn y [fideo byr hwn](#) o gyfres Dosbarthiadau Meistr y llynedd, mae Ben Hawes, a arferai fod yn arweinydd y Llywodraeth ar Ddinasoedd Clyfar, yn archwilio rhai o'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth gasglu data lleoliad. Gan gynnwys moeseg data.

A yw hyn yn rhywbeth yr hoffech ei drafod ymhellach? A oes unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol? Gyrrwch e-bost atom yn smarttowns@mentermon.com